



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-JJ-3967-21

At sylw:
Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol
Prif Gynllunwyr yr Awdurdodau Cynllunio Lleol

23 Tachwedd 2021

Annwyl gyfeillion

Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol

Llifogydd yw'r dystiolaeth gliriaf o effaith newid yn yr hinsawdd ar Gymru. Mae'r bygythiad eisoes yn bresennol a bydd yn cynyddu o ran difrifoldeb ac amlder, gyda chynnydd a ragwelir yn lefel y môr o oddeutu 1.11 metr a chynnydd mewn dwyster glawiad fydd yn achosi cynnydd yn y llif afonydd brig o rhwng 20% a 30% erbyn 2120. Mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd mae Llywodraeth Cymru a nifer o awdurdodau lleol wedi datgan argyfyngau hinsawdd.

O ystyried yr heriau uniongyrchol a difrifol a ddaw yn sgil yr argyfwng hinsawdd, nid yw dilyn trywydd 'busnes fel arfer' ar gyfer cymunedau a'r economi yn opsiwn hyfyw mwyach. Bydd cymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn golygu bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd ac weithiau amhoblogaidd. I unrhyw un sy'n parhau i fod heb ei argyhoeddi, mae COP26 wedi dangos difrifoldeb y sefyllfa fyd-eang, a'r angen am gamau ymarferol i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu i'w ganlyniadau anoche.

Mae'r system gynllunio ar flaen y gad o ran ymateb i'r argyfwng hinsawdd a sicrhau llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Bydd y penderfyniadau y mae awdurdodau cynllunio lleol yn eu gwneud heddiw yn cael effaith ddofn ar sut rydyn ni'n addasu i newid yn yr hinsawdd nawr ac yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau bod y system gynllunio yn chwarae rhan lawn mewn addasu i newid yn yr hinsawdd, gwnaed fersiwn newydd o TAN 15 ar gael ar 29 Medi, cyn iddo ddod i rym a'i gyhoeddi'n ffurfiol ar 1 Rhagfyr 2021. Mae'r TAN 15 newydd wedi ei gefnogi gan y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, sy'n adeiladu ar fap Asesiad Risg Llifogydd Cymru ac yn cynnwys lwfansau ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Ar ôl eu cyhoeddi, byddant yn disodli fersiwn 2004 o TAN 15 a'r Map Cyngor Datblygu (nad yw'n cynnwys lwfansau newid yn yr hinsawdd), yn ogystal â Nodyn Cyngor Technegol 14: Cynllunio'r Arfordir.

Mae TAN 15 a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn mynd â ni i'r cyfeiriad cywir, tuag at gymdeithas ac economi fwy gwydn. Mae'n hollbwysig ein bod yn amddiffyn cartrefi rhag llifogydd, pan fyddwn yn gwybod yr effaith ddinistriol y gall ei chael ar iechyd a lles. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i amddiffyn mwy na 45,000 o gartrefi sydd mewn perygl o

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

lifogydd y tymor hwn, tra bydd polisi a phenderfyniadau cynllunio yn penderfynu a yw cartrefi newydd yn cael eu rhoi mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ai peidio.

Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cynrychioli cyd-destun tra gwahanol ar gyfer penderfyniadau cynllunio o'i gymharu â'r fframwaith presennol, a bydd rhaid i'r system gynllunio ymateb iddo. Mae gan y TAN y potensial i effeithio ar amrywiaeth o gynlluniau datblygu ar wahanol gamau o'r broses gynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd y mae eu cyllid yn dibynnu ar gael caniatâd cynllunio y flwyddyn ariannol hon, a phrosiectau sy'n cefnogi canol trefi i wella ar ôl pandemig Cofid-19.

I alluogi awdurdodau cynllunio lleol ystyried yn llawn effaith y rhagamcanion newid yn yr hinsawdd ar eu hardaloedd, **rwy'n gohirio y TAN 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio rhag dod i rym tan 1^{af} Mehefin 2023.** Mae'r TAN 15 presennol, a gyhoeddwyd yn 2004, a'r Map Cyngor Datblygu yn parhau yn y cyfamser i ddarparu cyd-destun ar gyfer asesu y risg o lifogydd.

Mae polisi 8 yn *Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040* yn darparu'r cyd-destun i awdurdodau lleol ystyried effaith llifogydd ar ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol ac i ddyfeisio strategaethau lliniaru priodol. Mae'n hanfodol bod awdurdodau cynllunio lleol yn defnyddio'r ataliad i ddatblygu dealltwriaeth fanylach o ganlyniadau llifogydd, ac felly rwy'n ei gwneud yn **ofynnol i bob awdurdod cynllunio lleol gwblhau gwaith i adolygu'r Asesiadau Canlyniadau Llifogydd Strategol ar gyfer eu hardal o fewn y 12 mis nesaf, naill ai yn unigol neu ar sail ranbarthol.** Rwyf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau rheoli risg llifogydd eraill, lle bo hynny'n briodol, nodi piblinell o gynlluniau rheoli risg llifogydd â blaenoriaeth i fynd i'r afael â risg llifogydd a bregusrwydd, ynghyd ag asesiad a sicrwydd penodol fod Cyrff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy yn gweithredu'n effeithiol. Rhaid i'r gwaith hwn gael ei lywio gan y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ac ystod lawn o ragamcanion newid yn yr hinsawdd, er mwyn darparu asesiad manylach o ganlyniadau llifogydd, nodi mesurau lliniaru priodol, a mireinio'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio drwy'r broses herio. Byddaf yn gosod mecanwaith i fonitro'r cynnydd yn yr Asesiadau Strategol dros y cyfnod o 12 mis. Ni fydd unrhyw ohirio pellach tu hwnt i Mehefin 2023 ar gyfer dod â TAN 15 i rym, ac i fod yn gwbl glir, y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio fydd y sail ar gyfer TAN 15 bryd hynny

Canlyniad y gwaith yma fydd bod pob awdurdod lleol yn ystyried opsiynau ac yn nodi camau ar gyfer addasu i'r risg gynyddol o lifogydd yn sgil newid yn yr hinsawdd. Yn ogystal â'r angen posib am amddiffynfeydd llifogydd, y nodwyd uchod, gall fod angen i awdurdodau lleol ystyried yr angen i adleoli seilwaith, mesurau gwytnwch sy'n safle-benodol neu seilwaith gwyrdd newydd.

Bydd y Prif Gynllunydd a'r Dirprwy Gyfarwyddwr dros Ddŵr, Llifogydd a Diogelwch Tipiau Glo yn ysgrifennu atoch eto yn fuan, gan nodi goblygiadau gweithdrefnol y llythyr hwn yng nghyd-destun y cynllun datblygu, prosesau rheoli datblygu a chyflawni rheoli risg llifogydd.

Yr gywir



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change